

# ADRODDIAD: PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH

## HYFFORDDIANT AELODAU - 12fed EBRILL 2018

### AWDURON: Carey Cartwright, Rheolwr Dysgu a Datblygu, a Cara Williams, Swyddog Datblygu Aelodau

---

#### Trosolwg o'r Sefyllfa bresennol

Yn dilyn etholiad Mai 2017, cynhaliwyd dau ddiwrnod o sesiynau Anwytho ar gyfer pob Aelod, gyda rhaglen hyfforddiant cynhwysfawr yn dilyn (gweler Atodiad 1).

Cynigir amrediad o gyfleoedd datblygol sy'n cynnwys elfennau megis gweithdai, cymhelliant (*coaching*) ac e-ddysgu, yn ogystal â hyfforddiant 'traddodiadol'.

Ers Mai 2017, mae Aelodau wedi manteisio ar 35 math gwahanol o gyfleoedd datblygol, gyda 87 o ddigwyddiadau wedi eu cynnal. Yn ogystal â sesiynau i'r Cyngor cyfan, mae'r nifer o ddigwyddiadau yn cynnwys hyfforddiant i niferoedd llai a sesiynau unigol e.e. cymhelliant. Mae hyn yn ymateb i gais i gynnig amryw o ddyddiadau a lleoliadau er mwyn rhoi opsiynau i Aelodau fedru mynychu. Mae niferoedd llai mewn sesiynau hefyd yn rhoi cyfle i bawb gyfrannu a dysgu'n fwy effeithiol.

Yn rhedeg ochr yn ochr â hyn, mae rhaglen datblygu'r Arweinyddiaeth sy'n cynnwys cyfleoedd i arweinwyr a darpar arweinwyr fanteisio ar raglenni Rhanbarthol a Chenedlaethol (nifer drwy CLILC). Yn ogystal â hyn, trefnir gweithdai wedi eu teilwrio gyda ffocws penodol e.e. gweithdy '5 Behaviours of a Cohesive Team' a gomisiynwyd ar gyfer y Cabinet.

#### **Llwyddiannau:**

**Sesiynau Datblygol:** Rydym wedi derbyn adborth positif iawn yn dilyn sesiynau megis '*Siarad yn Gyhoeddus*', '*Darllen yn Gyflym*', '*Cyfrngau Cymdeithasol*' a '*Cyflwyniadau Effeithiol*'.

**Cymhelliant un i un:** Mae 9 o Aelodau wedi manteisio ar sesiynau, ac mae'r adborth yn awgrymu ei fod yn fuddiol dros ben. Mae un Aelod Cabinet wedi gofyn inni gynnwys dyfyniad o'i brofiad ef o sesiynau cymhelliant:

*"Alla'i ddim cyfleu pa mor drawsnewidiol mae'r sesiynau cymhelliant wedi bod i mi fel Aelod newydd o'r Cabinet. Maent wedi bod yn hanfodol i mi ddeall sut dwi'n gallu bod yn effeithiol yn fy rôl newydd fel aelod cabinet, swydd gymhleth mewn system gymhleth. Mi fyswn i'n cyngori unrhyw un i gymryd mantais o'r cyfle i gael cymhelliant un i un, ac 'rydym yn lwcus iawn fel Cyngorwyr bod y cyfle yma i ni fanteisio arno. Mae'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu yma i'n cefnogi ni fel Aelodau i allu cyflawni ein rôl yn effeithiol, er mwyn gallu rhoi'r gwasanaeth gorau i bobl Gwynedd - felly cymerwch fantais o'r cyfleoedd sydd ar gael."*

**Mentora:** Mae 12 Aelod bellach wedi eu hyfforddi i fod yn Fentoriaid. Rydym wedi hysbysu Aelod eraill o hyn, a'u gwahodd i wneud cais am Fentor os ydynt yn dymuno.

#### **Sialensiau:**

Mae'n sialens i gyfleu pwysigrwydd a pherthnasedd hyfforddiant i bob Aelod, ac i drefnu sesiynau sy'n gyfleus i bawb. I'r perwyl yma, mae ymateb i rai teitlau wedi bod yn siomedig:

- **Sesiynau 'Amddifadu o Ryddid (DoLS)'** a drefnwyd fel cyfres o sesiynau ar gais Aelodau. Bu'n rhaid canslo dau ddigwyddiad oherwydd niferoedd isel.
- **Sesiynau 'Gwybodaeth am Bobl' (Diogelu Data)** a drefnwyd ar gyfer rhai nad oedd wedi gwneud yr hyfforddiant neu oedd angen 'refresher'. Bu'n rhaid canslo'r ddau sesiwn oherwydd niferoedd isel.

#### **Rhaglen Hyfforddiant 2018/19**

Mae'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer 2018/19 yn parhau i dyfu ac esblygu (gweler Atodiad 2 am y fersiwn diweddaraf). Mae'r teitlau yn y rhaglen yn seiliedig ar:

- Awgrymiadau gan Aelodau (yn deillio o'r broses mesur effaith a hefyd o gyfweiliadau datblygol unigol). Derbyniwyd yr awgrymiadau canlynol gan Aelodau am deitlau ychwanegol megis: '*Ailgylchu*' (er mwyn i Aelodau allu annog pobl yn eu ward i ailgylchu mwy), mwy o '*Hyfforddiant cyfrifiadurol*', '*Còd Ymddygiad*' (a phrotocol i swyddogion wrth ddelio â Chynghorwyr), '*Rôl Aelod Cabinet neu Aelod Senedd*' (a sut all Aelod gyrraedd lefel Cabinet), '*Cadeirio*' (hyfforddiant bellach)
- Awgrymiadau gan Swyddogion ac Adrannau am eu meysydd arbenigol

Byddem yn ddiolchgar petai'r Pwyllgor yn ystyried y rhaglen bresennol a hoffem eich gwahodd i gynnig unrhyw deitlau datblygol yr hoffech i'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu eu cynnwys ar gyfer yr ail flwyddyn etholiadol.

#### **Cyfweiliadau Datblygol Personol**

Cynigir cyfle am sgwrs ddatblygol gyfrinachol (un i un) gyda Swyddogion o'r *Gwasanaeth Democratiaeth*, i roi cyfle i Aelodau adlewyrchu ar eu rôl, ystyried unrhyw feysydd yr hoffent eu datblygu, ac efallai llunio *Rhaglen Ddatblygu Personol*. Gall hyn gynnwys amrediad o feysydd yn ogystal â dulliau/profiadau datblygol. Bydd Swyddog *Dysgu a Datblygu* wedyn yn gweithio hefo unigolion (neu grwpiau) i hwyluso a threfnu cyfleoedd datblygol perthnasol.

## **Dysgu Drwy Dechnoleg**

Fel y nodwyd uchod, cynigir amrediad o ddulliau dysgu gwahanol yn ogystal â hyfforddiant 'traddodiadol'. Mae hyn yn cynnwys datblygu sesiynau dysgu trwy ddulliau technegol, ble medrir cael mynediad atynt o unrhyw le gyda chysylltiad gwe, ar amseroedd sy'n gyfleus i unigolion. Rydym yn datblygu nifer o Webinarau a hefyd cyfres o fodiwlau e-ddysgu. Cylchredwyd neges i annog Aelodau i gwblhau modiwl e-ddysgu '*Trais yn y Cartref*' fel rhan o ymgyrch cenedlaethol (11 o Aelodau wedi gwneud hyn hyd yma). Bysem yn ddiolchgar am gefnogaeth y Pwyllgor i annog Aelodau i ymweld â'r *Porth Aelodau* a chwblhau nifer o fodiwlau e-ddysgu (gan gynnwys '*Trais yn y Cartref*'), ac i adnabod gwirfoddolwyr i dreialu Webinarau pan fyddent wedi eu datblygu.

## **Mesur Effaith y Dysgu**

Er mwyn asesu effaith y dysgu, gofynnwyd i Aelodau ymateb i'r cwestiwn canlynol:

*"Ydi'r ddarpariaeth dysgu a datblygu yn eich helpu chi fel Aelod i gyflawni eich rôl yn effeithiol, er mwyn i chi allu rhoi gwasanaeth gwell i bobl Gwynedd?" (Sgôr /10). "Beth fysai'n gwneud 10/10?"*

Ers Mai 2017 y sgôr cyfartalog yw 9.5/10 (yn dilyn sgôr ardderchog 9.8/10 ar gyfer 2016-17).

Derbyniwyd amrediad o sylwadau cadarnhaol ac awgrymiadau defnyddiol.

Dylid nodi bod rhai Aelodau yn teimlo nad ydi pob Aelod yn rhoi digon o bwyslais ar bwysigrwydd Dysgu a Datblygu eu hunain, ac y dylai mwy o Aelodau ymdrechu i fynychu'r sesiynau sy'n cael eu trefnu. Efallai yr hoffai'r Pwyllgor ystyried camau y gellid eu cymryd i gyfarch hyn.

## **Cofnodi Dysgu ac Adroddiadau**

Mae'r tîm *Dysgu a Datblygu* wedi bod yn cydweithio gyda TG ers peth amser i greu *Modiwl Datblygu Staff* (MoDS), fel rhan o'r system hunanwasanaeth ehangach. Mae hwn yn adnodd ble y gall Aelodau (mewn amser) allu gweld eu rhaglen ddatblygu a'u cofnod hyfforddiant (sef y dysgu maent wedi ei fynychu).

Bydd hefyd yn adnodd gweinyddol ardderchog, gydag opsiynau ar gyfer creu amrediad ehangach o adroddiadau data.

Hoffem wahodd y Pwyllgor i gynnig awgrymiadau am y data hyfforddiant a'r math o ac adroddiadau data yr hoffent eu derbyn gan y Gwasanaeth – fel y gallwn gynllunio ymlaen ar gyfer hyn.

## **Adroddiadau gan Aelodau**

Mae llawer i'w ddysgu trwy fynychu cyrsiau neu seminarau ar ran y Cyngor, ac os yw hynny'n digwydd, yna mae'n hanfodol fod Aelodau yn adrodd yn ol am yr hyn y maent wedi ei ddysgu. Bu i'r

Cynghorydd Catrin Wager fynychu cynhaldedd 'Merched Mewn Democrataieth' fel aelod o'r pwyllgor hwn. Rhoddir adroddiad ar lafar gan y Cynghorydd.